**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF-JH-0564-15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CaerdyddCF99 1NA

10 Mehefin 2015

Annwyl Jocelyn,

Diolch ichi am eich llythyr 19 Mai ynghylch costau deddfwriaeth yn y Pedwerydd Cynulliad. Rwyf yn falch o ymateb.

Rydym yn trin deddfwriaeth yn yr un ffordd â dulliau eraill o gyflwyno polisi o safbwynt sut yr ydym yn olrhain yr effaith ariannol.

Mae'r cynigion deddfwriaethol a gyflwynir gan y Gweinidogion yn gorfod cynnwys costau dangosol i'w hystyried er mwyn eu cynnwys yn y rhaglen. Rhaid i'r costau amlinellol hynny gael eu mireinio wrth i'r polisi a'r ddeddfwriaeth ddatblygu. Ni all y Gweinidogion gyflwyno cynigion na allant mo'u costio, a rhaid i'r costau hynny gael eu talu o fewn yr adnoddau sydd ar gael inni. Wrth ddatblygu cynlluniau gwario yn y dyfodol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd asesu effaith ein penderfyniadau ynghylch y rhaglen ddeddfwriaethol, a sicrhau bod deddfwriaeth newydd yn cael ei hariannu'n briodol. Er hynny, wrth ystyried hyn ni fyddem yn gwahaniaethu rhwng deddfwriaeth a ffyrdd eraill o gyflwyno polisi.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i roi eglurder ar gostau deddfwriaeth. Rydym wedi cymryd camau o flwyddyn i flwyddyn i wella'r asesiad ariannol o'r ddeddfwriaeth yr ydym yn ei datblygu ac i ddarparu mwy o fanylder am y costau hyn yn Naratif y Gyllideb. Yn achos Cyllideb Ddrafft 2015-16 darparwyd atodiad yn Naratif y Gyllideb am y tro cyntaf yn dangos costau deddfwriaeth sydd wedi cael ei deddfu yn y gorffennol a deddfwriaeth ddrafft sy'n dod o fewn cyfnod y Gyllideb hon, lle mae Biliau wedi'u cyflwyno i'r Cynulliad. Gwn fod llawer o Aelodau wedi croesawu'r cam hwn.

O safbwynt yr effeithiau ehangach ar wahanol gyrff, mae'r asesiadau effaith rheoleiddiol sy'n cael eu cynnal am bob eitem o ddeddfwriaeth yn cynnwys amcangyfrif gorau o effaith ariannol y ddeddfwriaeth, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael. Mae'r asesiad yn ystyried o fewn pa gyfnodau y byddai disgwyl i'r costau hyn godi a phwy fydd yn gyfrifol am y costau.

Rwyf wedi rhoi ymrwymiad hefyd i sicrhau bod ymgynghoriad ac ymgysylltiad â'n rhanddeiliaid yn digwydd wrth ddatblygu'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol (RIAs) sy'n cael

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@Cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

eu paratoi ar gyfer Biliau'r Llywodraeth. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod angen casglu ac asesu tystiolaeth yn ofalus er mwyn i'r broses RIA fod yn ystyrlon. Yn ogystal, mae angen ymgysylltiad da a chyd-ddealltwriaeth rhwng y Llywodraeth a'n rhanddeiliaid yn sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio ariannol.

Yn ystod y broses graffu rydym yn adolygu'r wybodaeth hon yn barhaus er mwyn sicrhau bod y costau ariannol yn cymryd datblygiadau polisi pellach i ystyriaeth, neu'n adlewyrchu'r newidiadau a wneir i'r ddeddfwriaeth.

Nid yw'r broses RIA yn cynnwys asesiad o'r effaith gronnus ar newidiadau polisi a deddfwriaeth newydd yng Nghymru ar y sector preifat cyfan fel gofyniad safonol. Byddai gwneud hyn yn ofynnol ym mhob achos yn anghymesur. Er hynny, mae RIAs wedi ystyried effaith gronnus polisi lle mae nifer o newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol wedi effeithio ar sector penodol. Mae'r dull hwn wedi cydymffurfio â'r canllawiau presennol oddi wrth Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r broses ymgynghori'n cynnig y cyfle i randdeiliaid dynnu sylw Llywodraeth Cymru at achosion lle maent yn credu y gallai effeithiau gael effaith gronnus ar sector penodol a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i asesu effeithiau o'r fath fesul achos.

Yn yr un ffordd, nid oes ffordd safonol o fynd ati i adolygu deddfwriaeth ar ôl iddi gael ei gweithredu. Gallai'r adolygiadau hyn edrych ar wahanol agweddau, gan gynnwys sut y mae'r ddeddfwriaeth yn gweithredu, neu effaith y ddeddfwriaeth. Mewn rhai achosion gallai'r adolygiad ôl-weithredu gynnwys adolygiad o'r costau a ddisgwylir a manteision y ddeddfwriaeth : er enghraifft, mewn perthynas â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cadarnhau y caiff dadansoddiad cost a budd ei gynnal mewn ffordd gymesur, ac y bydd yn tynnu ar y dystiolaeth ymchwil ehangach sydd ar gael a'r data sydd wedi cael ei gasglu fel rhan o'r drefn ers i'r Mesur gael ei weithredu. Dylwn nodi, er hynny, nad ydym wedi cyrraedd pwynt eto, yn achos llawer o Filiau'r Pedwerydd Cynulliad lle mae adolygiad ôl-weithredu yn briodol.

Yn gywir iawn,
Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business